

## **Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus – Rhaglen Cefnogi Pobl**

### **3 Rhagfyr 2018**

#### **1. Diben y papur hwn**

Ymhellach i'r gwahoddiad i ddod i gyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 3 Rhagfyr 2018 ar gyfer sesiwn graffu ar y Rhaglen Cefnogi Pobl, gofynnodd y Pwyllgor am gopi o'r gwerthusiad interim ar Ariannu Hyblyg.

Rwyf wedi manteisio ar y cyfle, felly, i ddarparu papur byr i gwmpasu'r gwerthusiad, fy mhapur tystiolaeth a ddarparwyd ym mis Ionawr 2018 a'm llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 24 Awst 2018.

#### **2. Adroddiad Gwerthuso Interim**

Amgaeaf ddolen i adroddiad gwerthuso interim Wavehill a gyhoeddwyd ar 3 Hydref ar y rhaglen ariannu hyblyg.

<https://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-flexible-funding-programme/?skip=1&lang=cy>

Roedd y gwerthusiad interim yn dangos y potensial ar gyfer gwell canlyniadau yn deillio o wasanaethau wedi'u hintegreiddio'n well. Er ei bod yn gynnar yn y broses gyflawni, roedd y canfyddiadau interim yn dangos arwyddion o rai datblygiadau cadarnhaol o ran cyflawni'r rhaglen.

#### **3. Datganiad Ysgrifenedig – mis Hydref 2018**

Ar 3 Hydref 2018, gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Gweinidog Tai ac Adfywio Ddatganiad Ysgrifenedig (linc isod), yn cyfeirio at gyhoeddi adroddiad gwerthuso interim ar y gwaith braenaru ariannu hyblyg ac yn nodi eu penderfyniad ynghylch y trefniadau cyllido ar gyfer y dyfodol.

<https://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-flexible-funding-programme/?skip=1&lang=cy>

Tynnodd y gwerthusiad sylw at amrywiaeth o gyfleoedd i gysoni'r grantiau a gynhwysir yn y trefniadau braenaru. Ar ôl adolygu canfyddiadau'r gwerthusiad ac ystyried barn rhanddeiliaid yn ofalus, penderfynodd yr Aelodau y dylai'r Grant Ymyrraeth Gynnar ac Atal gael ei rannu'n ddau, gan wahanu'r grantiau sy'n ymwneud â thai o'r elfennau eraill.

Mae'r dull hwn yn unol ag argymhellion rhai rhanddeiliaid ac mae wedi cael ei groesawu'n eang gan y sector tai yn arbennig. Mae hefyd wedi cael ei gefnogi gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am gyfnod.

O fis Ebrill 2019, bydd Grant Plant a Chymunedau yn cael ei sefydlu, yn cwmpasu Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, y Gronfa Waddol, Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol ar gyfer Pobl Ifanc, Cronfa Dydd Gŵyl Dewi, Cymunedau am Waith a Mwy a Gofal Plant a Chwarae. Byddwn hefyd yn cyflwyno un Grant Cymorth Tai yn cwmpasu Cefnogi Pobl, Atal Digartrefedd a Gorfodi Rhentu Doeth Cymru.

Bydd y trefniadau hyn yn parhau yn eu lle am weddill tymor y Cynulliad hwn a byddant yn berthnasol i bob awdurdod lleol yng Nghymru. Byddant yn cael eu monitro'n ofalus a'u gwerthuso i sicrhau y caiff y pryderon a godwyd gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol a Swyddfa Archwilio Cymru eu trafod.

Bydd y gallu i ddatblygu ein dull gweithredu o ran y ddau grant a'u hintegreiddio i sicrhau canlyniadau cyffredin yn cael ei wella'n fawr gan ddull cydweithredol sy'n cynnwys yr holl randdeiliaid perthnasol.

#### **4. Datblygiadau perthnasol**

Dylid sôn, hefyd, am nifer o newidiadau i gyd-destun y gwaith braenaru dros y cyfnod - yn bennaf cyhoeddiadau gan Lywodraeth y DU ynghylch dyfodol cyllid llety â chymorth a phenderfyniadau cyllideb Llywodraeth Cymru.

#### **Adolygiad o Lety â Chymorth**

Yn ein papur tystiolaeth a gyflwynwyd ym mis Ionawr, cyfeiriwyd at yr Adolygiad yr oedd Llywodraeth y DU yn ei gynnal i gyllido llety â chymorth drwy'r system lles. Ym mis Awst eleni, cyhoeddodd Gweinidogion y DU y byddai'r cynnig polisi i greu cronfa arian parod cyfyngedig ar gyfer y costau ychwanegol o ddarparu lleoliadau llety â chymorth yn cael ei wrydroi ac y byddai tenantiaid yn gallu hawlio'r costau hyn drwy Fudd-dal Tai. Mae hyn yn ei hanfod yn cadw'r darpariaethau presennol ac wedi cael ei groesawu gan Weinidogion Cymru a darparwyr fel dewis sy'n cyflwyno sefyllfa ariannu mwy cynaliadwy.

#### **Penderfyniadau ar y gyllideb**

Yn y gyllideb ddrafft ym mis Hydref 2018, nodwyd bod Llywodraeth Cymru yn dyrannu cyfanswm o £13.4 miliwn i adfer toriadau a fwriadwyd yn flaenorol i'r rhaglenni sy'n cefnogi ymyrraeth gynnar, atal a chymorth.

#### **5. Y Camau Nesaf**

Mae dull dau grant yn caniatáu inni adeiladu ar y gwaith da a gwblhawyd eisoes gyda'n partneriaid ac mae'n gyfle i wasanaethau hanfodol gael eu hintegreiddio mor effeithlon ac effeithiol â phosibl. Mae hefyd yn caniatáu inni ystyried y dystiolaeth yn llawn, a'r argymhellion sy'n dod i'r amlwg gan bwyllgorau, adolygiadau a gwerthusiadau diweddar mewn cysylltiad â'r grantiau'n ymwneud â thai, gan gynnwys Adolygiad Aylward. Rydym yn gweithio ar raglen, ar hyn o bryd, i ddatblygu gwaith diwygio yn y maes hwn mewn partneriaeth â'n rhanddeiliaid.

**Tracey Burke – Tachwedd 2018**